


SLAM

Diwrnod
Sbort Lles Antur Mwy



Lle: Y Ganolfan, Llanberis
Pryd: 1.30-4y.p 28/2/2019
Cyswllt: susanpanthyfryd@btinternet.com, 07769279231

Y mis nesaf - Deiniolen

Oedfaon yn Nhŷ Elidir

Ionawr 20

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ionawr 27

5.00 p.m. - Mr John Roberts

Chwefror 3

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 20

10.00 a.m. - Mr Richard Ll Jones

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Ionawr 27

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Chwefror 3

10.00 a.m. - Y Parchg Harri Parri

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 782
13 Ionawr, 2019

Gronyn



Gweddi am heddwch

Pwy a wŷr beth a ddigwydd yn San Steffan yr wythnos hon? Mae'r Senedd i fod i bleidleisio ddydd Mawrth o blaid neu yn erbyn y cytundeb a sicrhodd Theresa May gyda'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb. Mae'n debyg y cynhelir y bleidlais, ond fyddai neb yn synnu erbyn hyn pe byddai'n cael ei gohirio unwaith eto. Mae wedi bod yn amhosibl rhagweld yr hyn a ddigwyddodd dros y misoedd diwethaf. Os bydd yr Aelodau Seneddol yn bwrw pleidlais, ac os - fel y tybir - y caiff cytundeb Mrs May ei wrthod, pwy a wŷr beth a ddigwydd nesaf? Etholiad Cyffredinol? Refferendwm arall? Neu a welir y Senedd yn cymryd cyfrifoldeb am y cyfan ac yn ceisio datrys yr holl lanast ei hunan?

Beth bynnag a ddigwydd, mae'n anodd peidio â meddwl y gwelir gwaethygu'r tensiynau presennol sy'n bygwth ein cymdeithas yn y gwledydd hyn. Roedd pethau'n danlyd a chas yn Llundain yr wythnos ddiwethaf. Ni fyddai'n syndod os ceir golygfeydd tebyg yr wythnos hon eto. A beth bynnag a ddigwydd ddydd Mawrth, bydd y dadlau'n parhau a misoedd os nad blynyddoedd o drafod pellach i ddod. Un o'r ychydig bethau y gallwn ei ddweud yn hyderus yw bod yr holl drafodaeth ynghylch Brexit wedi creu rhaniadau dwfn, neu wedi dod â rhaniadau a oedd yn llechu dan y wyneb yn y gwledydd hyn i'r amlwg. Mae'r cyfan wedi esgor ar ddadlau a ffraco, ac at ymosodiadau geiriol hynod o gas ar wleidyddion a

newyddiadurwyr a darlledwyr, ond hefyd ar fewnfudwyr a chymdogion a châr fel ei gilydd. Gwaethaf pethau yw'r posibilrwydd real nad yw hyn oll ond megis dechrau. Oherwydd mae dyfnder y tensiynau presennol, a chieidd-dra'r geiriau, ac o bosibl yn waeth na dim afresymoldeb cymaint o'r rhagfarnau a'r dadleuon yn gwneud i mi ofni y gallai'r cyfan arwain at waeth o lawer na gweiddi a ffraco a galw enwau cas. Nid yw'n amhosibl i'r cyfan esgor ar drais a therfysg ac ymladd ar strydoedd y gwledydd hyn. Nid yw hynny'n rhwym o ddigwydd wrth gwrs, ac rwy'n gobeithio'n fawr na wireddir f'ofnau. Ond mae unrhyw un sy'n credu fod pobl y gwledydd hyn yn gallach na hynny a'u bod rywsut yn ddiogel rhag y fath berygl yn ei dwyllo ei hun ac yn anghofio mai cam bychan sydd yn aml o'r geiriau i'r ymddygiad cas a threisiol.

Nid bygwth gwae na chodi braw yw'r bwriad wrth ddweud hyn ond annog pawb ohonom i weddio na ddaw hyn oll i fod. Ar ddechrau blwyddyn a all fod yn dyngedfennol ar lawer ystyr i'r cenedlaethau nesaf yn y gwledydd hyn, gweddiwn y gall pobl drafod yn synhwyrol a pharchus, ac na welwn ddirywiad pellach ym mherthynas pobl a'i gilydd. Gweddiwn, beth bynnag y penderfyniadau gwleidyddol, na welwn ddyfnhau'r casineb sy'n dod i'r wyneb mor aml heddiw, ac y cedwir y gwledydd hyn a'u pobl rhag llithro i drais ac ymladd. A gweddiwn y bydd ein cymdeithas yn wâr a chyfiawn.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch a Rehoboth (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan Dr Huw Tegid Roberts.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Am 5.00 o'r gloch bydd oedfa wedi ei seilio ar Apêl Madagascar Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Gweddiwn dros ein gilydd eto heddiw, gan geisio cymorth a nerth yr Arglwydd i bawb. Diolchwn am ddaioni Duw, ac am allu credu ei fod bob amser yn gofalu amdanom ac yn dymuno ein lles.

Yn gynnar yn y flwyddyn newydd, gweddiwn dros ein gwlad a'i phobl, y rhydd Duw i genedl y Cymry eleni olwg

Balm o Salm



'Molwch yr ARGLWYDD.
Molwch, chwi weision **BYW Y BEIBL**
yr ARGLWYDD, molwch
enw'r ARGLWYDD. Bendigedig fyddo
enw'r ARGLWYDD o hyn allan a hyd
byth. O godiad haul hyd ei fachlud
bydded enw'r ARGLWYDD yn folianus.
Uchel yw'r ARGLWYDD goruwch
yr holl genhedloedd, a'i ogoniant goruwch
y nefoedd. Pwy sydd fel
yr ARGLWYDD ein Duw yn y nefoedd
neu ar y ddaear, yn gosod ei orseddfainc
yn uchel a hefyd yn ymstwg i edrych
yn isel? Y mae ef yn codi'r gwan o'r
llwch ac yn dyrchafu'r anghenus o'r
domen, i'w gosod gyda phendefigion,
gyda phendefigion ei bobl. Rhydd deulu
i'r wraig ddi-blant; daw hi'n fam lawen i
blant. Molwch yr ARGLWYDD' (Salm
113).

eglur a newydd ar ei gariad atom yn Iesu
Grist, Gweddiwn am ei fendith ar bob
ymdrech a geir eleni i gyhoeddi Efengyl
gras a chariad. Gweddiwn yn arbennig
hefyd dros wledydd Prydain yn nghanol
yr holl ddaidlau ynghylch y newidiadau
gwleidyddol a wynebwn eleni, na fydd y
cyfan yn esgor ar weithredu a allai fod yn
wirioneddol gas a niweidiol i berthynas
dinasyddion â'i gilydd..

Oedfa

Dechrau Blwyddyn

Cynhaliwyd Oedfa Dechrau'r Flwyddyn
yn Capel Coch nos Fawrth diwethaf dan
arweiniad y Gweinidog. Gareth Jones
oedd yr organydd.

Aelod Newydd

Yn yr oedfa yng Nghapel Carmel nos Sul
diwethaf derbyniwyd Manon Hughes yn
aelod o'r eglwys. Estynnwyd croeso iddi
ar ran yr eglwys; a dymunwn fendith
Duw iddi.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mr William Henry
Jones, Glaslyn, Llanberis brynhawn Llun
diwethaf, Ionawr 7. Cafwyd oedfa yn
Capel Coch dan arweiniad y Gweinidog.
Bethan Holding oedd yr organydd. Yna
cafwyd gwasanaeth ar lan y bedd ym
Mynwent Nant Peris.

Bu farw Wil yn Ysbyty Gwynedd, ddydd
Gwener, Rhagfyr 28 yn 86 mlwydd oed.
Roedd yn aelod ffyddlon yn Capel Coch
ers blynnydoedd. Gwasanaethodd ar
Bwyllgor Adeiladau'r eglwys; ac yr oedd
yn barod iawn i ddefnyddio'i ddawn fel
trydanwr er mwyn helpu efo'r gwaith
cynnal a chadw. Yr oedd yn gymeriad
annwyl a chymwynasgar. Roedd yn
gymeradwy gan bawb yn yr eglwys a'r
gymdogaeth. Gellid dibynnu arno bob
amser i wasanaethu wrth y drws pan
fyddai ffair neu weithgaredd arbennig yn
y capel. Yr oedd yn mwynhau dod i'r
oedfaon, ac yn ei waeledd dros y ddwy
neu dair blynedd ddiwethaf yr oedd
cwmni ei gydaelodau yn gymorth ac yn
gyrus iddo. Yr oedd yn gymydog gwerth
chweil, a bydd yn chwith iawn hebdo.
Wedi colli ei briod Glenys un mlynedd ar
bymtheg yn ôl, daeth i werthfawrogi
cefnogaeth a chwmni ei gyfeillion yn y
Capel, yn y cae pêl droed, neu o gwmpas
y pentref. Cydymdeimlwn â'i frawd a'i
chwaer a'u teuluoedd, ac â Valerie a
Colin Jones a'i deulu yng nghyfraith yn
Llanberis a fu'n driw iddo yn ystod ei
waeledd ac ar hyd y blynnydoedd.

Ysgol Sul

Bydd ysgolion Sul yr Ofalaeth yn ail-
ddechrau heddiw wedi'r gwyliau. Diolch
i bawb yn Nhalybont, Rachub a Llanberis
sy'n gwasanaethu trwy ddarparu ar gyfer
y plant ynddynt. Dymunwn bob bendith i
chi ar ddechrau tymor newydd. Dowch
i'r gweddill ohonom weddio dros ein
hysgolion Sul. Beth am wneud hynny tra
bydd yr Ysgol Sul yn cael ei chynnal yn
eich eglwysi chi? Mynnwch funud neu

ddau i weddio dros yr athrawon a'r plant.
I'ch atgoffa felly, mae'r Ysgol Sul yn
Nhalybont am 10.00 o'r gloch; yn
Rachub am 10.30 o'r gloch; ac yn
Llanberis am 11.15 o'r gloch. Wrth
ddychwelyd o'r oedfa, neu wrth baratoi
cinio neu beth bynnag arall y byddwch
yn ei wneud ar fore Sul, gofynnwch yn
symb i Dduw fendithio'r gwaith hwn.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Llanberis
yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos
Fawrth, Ionawr 15. Y gw'r gwadd y tro
hwn fydd Mr Rolant Wynne, Llanrug,
cyn brifathro Ysgol Dolbadarn.

CIC

Braf oedd gweld criw CIC Capel Coch
eto nos Wener wedi'r gwyliau dros y
Nadolig. Diolch i Susan am arwain.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ionawr 20: Gwasanaethir
am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A REHOBOTH, A NANT PADARN

Nos Fawrth, Ionawr 15: Y Gymdeithas
Undebol am 7.00 o'r gloch yng nghwmni
Mr Rolant Wynne, Llanrug.

Dydd Sul, Ionawr 20: Gwasanaethir
am 10.00 o'r gloch gan Richard Ll Jones.
Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Nos Wener, Ionawr 18: Dwylo Prysyr
am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 20: Yr Ysgol Sul am
10.30 o'r gloch a'r Parchg Ddr Sion Aled
Owen **am 2.00 o'r gloch.**

BETHLEHEM

Dydd Sul, Ionawr 20: Ysgol Sul am
10.30 o'r gloch a'r Parchg John Lewis
Jones am 2.00 o'r gloch.